

# **CYNGOR CYMDEITHAS LLANFROTEN**

## **Cofnodion 15 Mai 2017**

**Presennol:** Cynghorydd Dafydd Watts, NiaPovey, Rhydwen Roberts  
Roberts

**Cadeirydd:** O.G. Griffiths

**Clerc:** Huw Rowlands a Ken Williams

### **1. Datgan diddordeb**

Dim

### **2. Croeso i'r Clerc newydd**

Croesawodd y Cadeirydd y Clerc newydd, Huw Llwyd Rowlands I'r cyfarfod, gan ddiolch ar yr un pryd i Ken Williams am ei wasanaeth cydwybodol a ffyddlon fel Clerc am flynyddoedd maith.

### **3. Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ac arwyddo ffurflen derbyn swydd**

Ni fu'n rhaid cynnal etholiad eleni, ac fe enwebwyd yr un aelodau â'r llynedd.

Etholwyd y Cynghorydd Glyn Griffiths yn Gadeirydd am gyfnod o 2 flynedd a'r Cynghorydd Dafydd Watts yn Gadeirydd am gyfnod o 2 flynedd.

Arwyddodd y Cynghorwyr oedd yn bresennol ffurflen yn derbyn eu swydd fel Cynghorwyr, gan gytuno i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

### **4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 27 2017**

Cadarnhawyd cofnodion Mawrth 27 2017

### **5. Materion yn codi**

- Achwynwyd fod sbwriel yn cael ei adael o flaen drws y Ganolfan Gymunedol gan yr ysgol. Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i'r ysgol eu symud, yn enwedig o gofio y bydd Y Ganolfan yn cael ei defnyddio ar gyfer etholiad yn fuan.
- Torri coed – cysylltwyd â Chyngor Gwynedd bron i ddau fis yn ôl yn gofyn iddynt dorri'r coed sy'n tramgwyddo ochrau ffyrdd. Gofynnwyd i'r Clerc fynd ar ôl Cyngor Gwynedd.

- Comisiynydd Y Gymraeg. Ysgrifennodd Ken Williams at y Comisiynydd i fynegi pryder am y diffyg defnydd o'r Gymraeg, gan yr archwiliwr allanol BDO. Gofynnodd y isinydd am fwy o fanylion. Disgwylir ateb yn awr gan y Comisiynydd.
- **6. Gohebiaeth**

- a) Cyngor Gwynedd – materion lleol. Derbyniwyd er gwybodaeth.
- b) Parc Cenedlaethol Eryri – Cynllun Lleol. Derbyniwyd er gwybodaeth.
- c) Cyngor Gwynedd – mae angen ystyried apelio yn erbyn dyblu swm y dreth annomestig ar Y Ganolfan

## **7. Biliau i'w talu**

Cytunwyd i dalu'r biliau canlynol:-

- JD Roberts archwiliwr allanol 2016/17 £69.00
- Dwr Cymru £54.93
- Scottish Power £58.84
- Delwedd – ac mae angen adolygu'r taliadu i Delwedd pan y bydd y cytundeb presennol yn dod i ben ym mis medi 2017 £431.28
- Cyngor Gwynedd – treth annomestig £207.90
- Norman Kerr – torri bed £380.00

## **8. Ceisiadau cynllunio**

Dim

## **9. Unrhyw fater arall**

- Codwyd mater yr arosfan fws. Bu cais a thrafodaeth gyda Cyngor Gwynedd rai misoedd yn ôl, ond gwrthodwyd y cais gan fod perchennog ty cyfagos wedi gwthwynebu. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd a gofyn iddynt ail ystyried y mater.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Nos Lun 3 Gorffennaf 2017